

4. ADRODDIAD BLYNYDDOL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DANGOSYDD DARBODAETH 2022-2023.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth 2022-23 fel y'i cyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Adnoddau.

Roedd yr adroddiad yn rhestru'r gweithgareddau a wnaed yn 2022-2023 o dan y penawdau canlynol:

- Buddsoddiadau
- Benthycia
- Gwarant
- Hylifedd a Chynnyrch
- Dangosyddion Darbodaeth a Rheoli'r Trysorlys
- Dangosyddion Darbodus
- Prydlesu
- Aildrefnu

Rhodddwyd sylw i'r materion a'r ymholiadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Yn sgil sylwi bod yr adroddiad yn cynnwys sawl acronym, gofynnwyd a allai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys geirfa, er lles y darllenydd. Cytunodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau, gyda chefnogaeth Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol, i gynnwys geirfa er mwyn helpu i ddeall y derminoleg a'r acronymau yn yr adroddiad.

Cyfeiriwyd at gyfradd gyfartalog enillion buddsoddiadau'r Awdurdod o 1.82% a oedd yn fwy na'r cyfraddau meincnod. Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y cyfraddau meincnod, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol gefndir a sefyllfa bresennol y broses feincnodi. Yn ogystal, yn dilyn penderfynu ar darged newydd ar gyfer y cyfnod dan sylw, dywedwyd mai'r "gyfradd SONIA heb ei hadlogi 90-diwrnod" gyfartalog oedd 1.81% ond mai 1.82% oedd y gyfradd wirioneddol a enillodd y Cyngor, sy'n cyfateb i berfformiad gwell o 0.01%. Rhodddwyd esboniad o'r newid o'r meincnod blaenorol o'r gyfradd LIBID 7 diwrnod.

- Cyfeiriwyd at fenthycia a'r cyfraddau llog. Wrth gydnabod bod y cyfraddau llog a briodolwyd i fenthycia £20m yn gymharol isel, mynegwyd pryderon am y risg bosibl y gallai cyfraddau llog gynyddu, felly gofynnwyd a oedd unrhyw fwrriadau i wneud benthyciadau pellach. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol y bu cynnydd sylweddol mewn cyfraddau llog, yr uchaf ers y cwmp ariannol yn 2008, ond yn ystadegol dros nifer o ddegawdau nid oedd y cynnydd mewn cyfraddau mor uchel ag yr oedd yn hanesyddol. Hefyd, eglurwyd bod Strategaeth Flynyddol y Trysorlys a gymeradwywyd ym mis Mawrth gan y Cyngor llawn yn cynnwys y benthycia gofynnol i ariannu rhaglen gyfalaf 2023/24. Byddai benthycia yn cael ei reoli yn unol â'r cyngor a gafwyd gan ymgynghorwyr allanol rheoli'r trysorlys a'i fonitro'n barhaus yn erbyn cyfraddau llog.

- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r acronym DMADF, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod yr acronym yn golygu Cyfleuster Adneuo Cyfrifon Rheoli Dyledion, sef Trysorlys Canolog Ei Fawrhydi y Llywodraeth, sy'n cael ei ystyried yn un o'r cyfleusterau mwyaf diogel i roi arian.
- Gofynnwyd pa mor aml yr oedd y Daliannau Partïon i Gontract yn cael eu hadolygu. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod cyfarfodydd chwarterol yn cael eu cynnal gyda Link, Ymgynghorwyr allanol Rheoli Trysorlys y Cyngor, a hefyd, fel rhan o system rhybuddio dyddiol, y byddai unrhyw newidiadau yng nghyfradd credyd partïon i gontract yn cael eu rheoli'n gyflym os bernir bod hynny'n angenrheidiol.
- Cyfeiriwyd at derfyn y DMADF (Cyfleuster Adneuo Cyfrifon Rheoli Dyledion) a gynyddwyd ym mis Ebrill 2022 i £125m o £100m gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol dan bwerau brys. Wrth geisio eglurder ynghylch 'pwerau brys' dywedwyd y byddai'n fuddiol cynnwys adran yn yr adroddiad ynghylch pam y cafodd y pwerau brys eu defnyddio. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod y pwerau brys wedi cael eu defnyddio fel swyddogaeth o ran y balansau arian parod sylweddol a oedd yn cael eu cadw, gan gyfeirio at yr ymateb cynharach i ymholiad a nododd mai'r DMADF oedd y cyfleuster mwyaf diogel i storio arian.
- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch benthycia 2022/23, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol mai'r gwahaniaeth benthycia o £3.13m oedd oherwydd yr ad-daliad net.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR bod yr Adroddiad Blynyddol ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth 2022-23 yn cael ei fabwysiadu.

5. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor yr adroddiad "peidio â chyflwyno" mewn perthynas â Chofnodion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y cyfarfod ym mis Mai a nododd yr esboniad a'r dyddiad cyflwyno diwygiedig, sef 18 Hydref 2023.

6. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn cynnal cyfarfod anffurfiol i dderbyn gwybodaeth am Ganolfan Alwadau'r Cyngor. Yn dilyn hynny, byddai'r Pwyllgor yn ystyried a ddylid cynnwys hyn yn y Flaenraglen Waith i'w ystyried ymhellach.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.

7. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 16 MEHEFIN 2023.

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2023 gan eu bod yn gofnod cywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD